



## **Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant** **Eich barn ynglŷn â rhaglen Cyfuno gan Lywodraeth Cymru**

Rydych chi wedi derbyn y gwahoddiad hwn am gyfweiliad oddi wrth Gydlynnydd Ymchwil yn Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales. Mae Amgueddfa Cymru ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) wedi comisiynu cyfweiliadau manwl â Chydlynwyr *Cyfuno*, fel rhan o werthusiad parhaus o raglen *Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant*.

Mae'r gwerthusiad parhaus yn cael ei gydlynu gan Amgueddfa Cymru, ac mae'r cyfweiliadau hyn yn cael eu rheoli gan Amgueddfa Cymru mewn partneriaeth ag ymchwilwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil.

Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu o'r cyfweiliadau hyn yn cael ei dadansoddi ochr yn ochr â'r canlyniadau o'r Arolwg *Cyfuno* a anfonwyd atoch chi yn ddiweddar. Mae'r ymchwil hwn yn anelu at gael barn a phrofiadau Cydlynwyr *Cyfuno* a sefydliadau partner fel ei gilydd, er mwyn mesur boddhad â rhaglen *Cyfuno*, a thynnu sylw at unrhyw feysydd lle y mae angen gwella. Amcanion yr ymchwil yw:

- mesur boddhad ymatebwyr gyda'r rhaglen *Cyfuno*;
- gofyn am sylwadau ynglŷn â meysydd sy'n gweithio'n dda;
- gofyn am sylwadau ynglŷn â meysydd i'w gwella; a
- defnyddio'r canfyddiadau er mwyn helpu i flaenoriaethu meysydd i'w newid.

Bydd y Cydlynnydd Ymchwil yn Amgueddfa Cymru yn cynnal y cyfweiliad, a bydd hi yn dadansoddi'r rhain ochr yn ochr ag ymchwilwyr o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r cyfweiliad, bydd gofyn i chi roi rhywfaint o wybodaeth bersonol (e.e. enw, maes partneriaeth *Cyfuno* yr ydych chi'n ei gydlynu). Bydd hyn ein darparu ni gyda gwybodaeth gefndir ddefnyddiol i helpu rhoi'r ymatebion yn eu cyd-destun a rhoi strwythur i'r cyfweiliad. Bydd unrhyw ddata personol sy'n cael ei gasglu yn y cyfweiliadau yn cael ei olygu ar ôl y cyfnod casglu data gan y Cydlynnydd Ymchwil yn Amgueddfa Cymru, a bydd y data crai yn cael ei wneud yn ddiennw, cyn iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion dadansoddi. Ni fydd yr adroddiad terfynol yn adnabod unigolion na sefydliadau.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol a gallwch chi ddewis tynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw amser. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau ynglŷn â *Cyfuno* yn bwysig er mwyn darparu gwybodaeth ynglŷn â'i gwella



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

national  
museum  
cardiff  
amgueddfa  
caerdydd

## **HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – CYDLYNWYR CYFUNO**

### ***Pa ddata personol a ydym yn ei gadw ac o ble y cawsom eich manylion?***

Mae data personol yn cael ei ddiffinio o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (RhCDD) fel “unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodydd. Mae cyfeiriadau e-bost Cydlynwyr *Cyfuno* yn cael eu cadw yn Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae’r Cydlynwdd Ymchwil yn Amgueddfa Cymru wedi cysylltu â’r sampl o gyfweleion o’r cyfeiriadau e-bost hynny. Mae’r rhain yn cael eu harbed mewn ffolder â mynediad cyfyngedig.

Gallwch chi optio allan o dderbyn cais i gymryd rhan, a chael eich atgoffa ynglŷn ag ef, yn yr ymchwil drwy anfon e-bost at yr [ymchwilydd arweiniol](#) yn Amgueddfa Cymru, a fydd yn tynnu eich cyfeiriad e-bost o’r sampl.

Gallwn ni ofyn am rywfaint o wybodaeth bersonol (e.e. enw a swyddogaeth) yn ystod y cyfweiliad er mwyn helpu rhoi eich ymatebion yn eu cyd-destun. Gallwch chi hefyd ddewis i ddarparu data personol yn ystod eich ymatebion i’r cwestiynau cyfweiliad. Os yw data personol yn cael ei ddarparu mewn unrhyw ymatebion, rydym yn golygu’r wybodaeth hon ar ôl derbyn trawsgrifiad o’r cyfweiliad. Nid ydym yn ceisio eich adnabod o, nac yn cysylltu eich hunaniaeth ag, unrhyw un o’r ymatebion yr ydych chi’n eu darparu. Bydd unrhyw recordiadau o’r cyfweiliad yn cael eu dileu ar ôl gwneud y trawsgrifiad.

Os ydych chi’n holi neu’n cwyno ac yn darparu data personol gan ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog polisi perthnasol yn unig. Bydd yr ymchwilydd yn dilyn hynny drwy ddileu’r wybodaeth o’r data ymchwil.

O ganlyniad, bydd unrhyw wybodaeth a ellir ei gysylltu yn bersonol yn cael ei olygu o drawsgrifiad y cyfweiliad a bydd y canlyniadau yn cael eu gwneud yn ddiennw.



## ***Beth yw'r sail gyfreithiol dros gasglu'ch data?***

Y sail gyfreithiol o brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cyfweiliadau fel y rhain yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth cyfreithadwy ynglŷn â'i gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae rhaglen *Cyfuno* yn galluogi'r sector diwylliant i gyfrannu at sawl amcan yn [Ffyniant i Bawb](#) – strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer tymor hwn o'r Cynulliad – gan gynnwys gwirfoddoli a chyflogadwyedd.

Yn ogystal, mae'r rhaglen yn fecanwaith sydd wedi'i hanelu at sbarduno newid ar gyfer llawer o'r nodau a restrir o dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#).

## ***Pa mor ddiogel yw fy nata personol?***

Gyda'ch caniatâd chi, byddwn y cyfweiliad yn cael ei recordio ar dâp. Bydd y recordiad yn cael ei drawsgrifio gan yr ymchwilydd a gynhaliodd y cyfweiliad o fewn ychydig ddyddiau ar ôl y cyfweiliad, cyn cael ei ddileu.

Bydd y data personol a gasglwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio yn unig yn ystod cyfnod casglu'r data o'r ymchwil hwn. Unwaith y mae'n cael ei gasglu, bydd y wybodaeth bersonol yn cael ei dileu cyn dadansoddi'r data. Ni fydd unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolion yn bersonol o'r cyfweiliad yn cael ei storio am fwy nag ychydig ddyddiau gan y Cydlynnydd Ymchwil. Yn y modd hynny, mae unrhyw ddata a gesglir yn cael ei arbed yn ddiennw. Ni fydd unrhyw wybodaeth y gellir ei hadnabod o'r cyfweiliad hwn yn cael ei storio gan Amgueddfa Cymru a'i rhannu ag ymchwilydd yn Llywodraeth Cymru o gyfnod dadansoddi'r ymchwil ymlaen.

Bydd y data diennw o'r cyfweiliadau yn cael ei arbed o fewn ffeiliau cyfyngedig, lle mae gan gydlynnydd ymchwil Amgueddfa Cymru ac ymchwilydd o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi fynediad ato. Wrth adrodd ynglŷn ag ymchwil, rydym yn gwneud hynny yn unig mewn ffordd gyflawn a diennw, fel na ellir adnabod y cyfranogwyr.

Rydym yn ddiolchgar am eich cyfranogiad a bydd eich ymateb yn cyfrannu tuag at adeiladu darlun o effeithiolrwydd y rhaglen *Cyfuno* a sut y gallwn ni ei gwella.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

national  
museum  
cardiff  
amgueddfa  
genedlaethol  
caerdydd

## ***Pa mor hir ydych chi'n cadw fy nata personol?***

Bydd y data dienw o'r cyfweiliad yn cael ei ddileu 12 mis ar ôl cyhoeddi adroddiad Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru erbyn mis Ebrill 2019.

Mae'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei harbed yn ddiogel ac yn cael ei rhannu yn unig gyda'r tîm ymchwil uniongyrchol. Fel y nodwyd uchod, unwaith y mae'r data wedi cael ei gasglu, bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei thynnu oddi yno a'i dileu cyn dechrau dadansoddi.

## ***Hawliau'r Unigolyn***

O dan RhCDD, mae gennych chi'r hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol yr ydych chi'n ei darparu fel rhan o'r gwerthusiad hwn:

- Hawl i gael mynediad (gofyn am gopi o'ch data eich hun);
- Hawl i gywiro (cywiro gwybodaeth anghywir);
- Hawl i wrthwynebu neu gyfyngu prosesu'r data;
- Hawl i ddileu;
- Hawl i gyflwyno cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

## ***Gwybodaeth bellach***

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach ynglŷn â sut mae'r data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan ymchwilwyr yn Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru; os ydych chi'n dymuno i'ch cyfeiriad e-bost gael ei dynnu o'r sampl ar gyfer yr ymchwil hwn; os oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â manwl gywirdeb eich data personol; neu os ydych chi'n dymuno ymarfer eich hawliau drwy ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch os gwelwch yn dda a:

- Kate Mulready (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) Ffôn: 0300 025 1481  
E-bost: [kathleen.mulready001@gov.wales](mailto:kathleen.mulready001@gov.wales)

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

- Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bost [DataProtectionOfficer@gov.wales](mailto:DataProtectionOfficer@gov.wales).



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

national  
museum  
cardiff  
amgueddfa  
caerdydd

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Amgueddfa Cymru drwy:

- Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NP; e-bost:  
[tim.phillips@museumwales.ac.uk](mailto:tim.phillips@museumwales.ac.uk)

Mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno ynglŷn â'r ffordd y mae Amgueddfa Cymru a/neu Llywodraeth Cymru wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol drwy gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, drwy ffonio 029 2067 8400 / 0303 123 1113.